



Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 334 – 17 Mehefin 2010

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 333

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 333.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWJ ei adroddiad.

Cyfarfod y Fforwm Darlledu

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Aelodau oedd wedi mynychu cyfarfod cyntaf y Fforwm Darlledu yn Aberystwyth. Diolchodd yn ogystal i RhG am gyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr am arlwy raglenni'r misoedd sydd i ddod. Nododd hefyd fod gwerthfawrogiad cynrychiolwyr Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn amlwg, a bod y cyfarfod wedi bod yn un adeiladol a defnyddiol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddymuniad y cynrychiolwyr i S4C adolygu'r Canllawiau Iaith Rhaglenni presennol ac ystyried gwneud defnydd o banelau maes arbenigol.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Cyfeiriodd at y sefyllfa ariannol bresennol, a datganiadau Llywodraeth y Glymblaid am wariant cyhoeddus a'r ffaith mai lleihau'r diffyg cyllidebol yw eu blaenoriaeth.

Grant S4C ar gyfer 2010

Cyfeiriodd at adroddiad y Cadeirydd ar y toriad o £2m yn grant S4C ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11.

Adolygiad o S4C2

Cyflwynodd ei phapur opsiynau ar ddyfodol gwasanaeth S4C2.

Is-deitlau Cymraeg 889

Esboniodd IJ bod darparu is-deitlau Cymraeg yn seiliedig ar darged gwirfoddol sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod, ac nid oedd y ddarpariaeth yn ofyniad gan OfCom. Cyfeiriodd at Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ddiweddar.

Masnachol

Cyflwynodd IJ adroddiad am weithgareddau masnachol S4C.

Sefyllfa Barcud Derwen

Esboniodd IJ bod swyddogion wedi bod yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd, ac wedi bod yn asesu'r risg i weithgareddau S4C drwy gydol y cyfnod.

Astudiaeth Effaith Economaidd S4C

Cyflwynodd IJ awgrym ar gyfer gorchwyl astudiaeth effaith economaidd S4C.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Cyllid Misol
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu
- Adroddiad Ymchwil